Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

# Croeso i Llys Senghennydd







## Casglu Allwedi

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 21:45, ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 09:00 a 21:45 ar benwythnosau. Bydd allweddi ar gael i'w casglu ar ôl 15.00 oni bai eich bod wedi gwneud trefniadau arall.

Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau (conference@caerdydd.ac.uk), er mwyn gwneud trefniadau eraill.

I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr cysylltwch â'r tîm Diogelwch ar ôl cyrraedd:
+44 (0) 29 2087 4444.

Mae derbynfa'r preswylfeydd yn Llys Senghennydd, Ffordd Senghennydd, Caerdydd CF24 4DS.
Ffôn: +44 (0)29 2087 5709.

## Parcio

Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Codir tâl am barcio.

Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler Parcio i Breswylwyr

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch conference@caerdydd.ac.uk.

## Gwybodaeth Leol

Os ydych yn teithio i Gaerdydd ar fws neu drên, mae'n cymryd tua 25 munud i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i Lys Senghennydd. Fel arall, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae'r prisiau'n amrywio gan ddibynnu ar y pellter a llif y traffig. Gofynnwch i'r gyrrwr eich gollwng wrth y Dderbynfa sydd y tu ôl i Lys Senghennydd a chyferbyn â'r rheilffordd.

Cewch wybodaeth am deithio ar fysiau drwy glicio'r ddolen ganlynol: Bws Caerdydd

# Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch yr M4 wrth gyffordd 32. Dilynwch arwyddion yr A470 i Gaerdydd
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Wrth i chi agosáu at ganol y ddinas, byddwch yn cyrraedd Cyfnewidfa/Trosffordd Gabalfa
- Ewch drosti i Heol y Gogledd (yr A470 o hyd)
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r chwith wrth y goleuadau traffig (dilynwch arwyddion Prifysgol Caerdydd) ar Heol Colum.
- Ewch yn syth ymlaen dros y groesffordd (trwy'r goleuadau traffig) i Blas y Parc
- Ymhen tua ¼ milltir, trowch i'r chwith wrth y goleuadau traffig i Blas Sant Andreas
- Ymhen ychydig fetrau, byddwch yn mynd o dan Bont y Rheilffordd ac yn troi i'r chwith yn syth ar ôl hynny i Ffordd Senghennydd
- Dilynwch y troad cyntaf i'r chwith cyn yr Adeilad Addysg (adeilad mawr glas). Dilynwch yr arwyddion i'r Dderbynfa

# Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch yr M4 ar Gyffordd 29 (dilynwch arwyddion Dwyrain a De Caerdydd), cyn ymuno â thraffordd yr A48(M)
- Pan ddaw'r draffordd i ben, ewch yn eich blaen ar yr A48.  Wrth ddod i mewn i Gaerdydd,  ewch yn syth ymlaen (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas)
- **Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48**
- Arhoswch yn y lôn chwith (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas), yna ewch oddi ar y gylchfan ar yr ail ffordd ymadael i gyfeiriad Heol y Gogledd
- Ewch yn eich blaen, cyn ymuno â Heol y Gogledd - A470
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r chwith wrth y goleuadau traffig (dilynwch arwyddion Prifysgol Caerdydd) ar Heol Colum.
- Ewch yn syth ymlaen dros y groesffordd (trwy'r goleuadau traffig) i Blas y Parc
- Ymhen tua ¼ milltir, trowch i'r chwith wrth y goleuadau traffig i Blas Sant Andreas
- Ymhen ychydig fetrau, byddwch yn mynd o dan Bont y Rheilffordd ac yn troi i'r chwith yn syth ar ôl hynny i Ffordd Senghennydd
- Dilynwch y troad cyntaf i'r chwith cyn yr Adeilad Addysg (adeilad mawr glas). Dilynwch yr arwyddion i'r Dderbynfa

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

Cewch hyd i'r wybodaeth yma ar y gwefannau canlynol hefyd (CF24 4DS yw'r côd post ar gyfer eich SatNav):
This information can also be found via the following websites (SatNav postcode is CF24 4DS):

**www.rac.co.uk/route-planner**
**www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp**

Llys Senghennydd cyfeirnod 63 ar y map
Senghennydd Court is map ref 63

